Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

YSGOL LLAN-Y-PWLL

Dyddiad cymeradwyo'r polisi gan y bwrdd Llywodraethwyr	
Dyddiad adolygiad	
Arwyddwyd (Cadeirydd y Llywodraethwyr	
Arwyddwyd (Pennaeth)	

Staff Diogelu'r Ysgol a Rhifau Cyswllt

Pennaeth: Mrs Rhiannon James

Llywodraethwyr â Chyfrifoldeb dros Ddiogelu ac Amddiffyn Plant : Mrs Ceri Edwards

Swyddog Amddiffyn Plant: Mrs Rhiannon James

Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant : Mrs Lowri Parry

2il Ddirprwy Swyddog Amddiffyn Plant: Mr Rob Nicholson

Swyddog Diogelu'r Awdurdod Lleol (LADO). John Hodgson - 01978 268140/ 07808787761

Pwynt Cyswllt CBS Wrecsam 01978 292039. Ffôn Uniongyrchol Lles 01978 295505

Sylwer. Dylai pob aelod o'r staff gael mynediad at y polisi hwn, gellir ei weld Wefan Addysgu CBS Wrecsam. Yn ogystal, bydd yn cael ei e-bostio i aelodau o staff a bydd ar gael yn adran ffeiliau ar Teams.
Rhaid i'r holl staff cyfredol ac unrhyw benodiadau newydd lofnodi cofrestr yn yr ysgol i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Bydd y gofrestr hon yn cael ei chadw'n ddiogel yn yr ysgol a bydd yn cadarnhau hefyd ddyddiad hyfforddiant diwethaf staff unigol. Dylai'r ysgol gofnodi hefyd fod staff wedi cael hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 1.

Dyddiad Polisi gan yr ALl	Medi 2020
Cyhoeddwyd y Polisi gan:	Pennaeth Addysg, CBS Wrecsam
Dyddiad Fersiwn 001	Ebrill 2018
Dyddiad Mabwysiadu gan ALl	Ebrill 2018
Dyddiad Adolygu Blynyddol ALl	Awst 2021

Cynnwys

1. Disgrifiad o'r Ysgol 4
2. Disgrifiad Ffurfio'r Polisi a'r Broses Ymgynghori 4
3. Cyflwyniad 5
4. Rhwymedigaethau Diogelu yr Awdurdod Lleol..... 6
5. Rhwymedigaethau Diogelu yr Ysgol..... 6
5.1. Y Corff Llywodraethu: 6
5.2. Y Pennaeth..... 7
5.3. Y Swyddog Diogelu Plant : 9
5.4. Holl staff: 11
6. Atal 13
7. Gweithdrefnau..... 14
8. Cefnogaeth..... 16
9. Trosglwyddo Gwybodaeth Diogelu i ysgol neu Awdurdod Lleol newydd..17
10. Plant ag Anghenion Arbennig / Ychwanegol..... 17
11. Staff Ategol..... 17
12. Gwneud honiadau yn erbyn Aelodau o'r Staff..... 18
13. Recriwtio mwy Diogel..... 19
14. Diogelwch ar Safle'r Ysgol..... 20
15. Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (NWSCB) 20
16. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth..... 21
17. Cyfrinachedd a Rhannu Gwybodaeth..... 21
18. Polisïau Cysylltiedig (Rhaid i bob polisi gael ei darllen a'i dilyn ochr yn ochr â'r polisi hwn..... 22

18.1. Polisïau Ysgol 22
18.2. Awdurdod Lleol 23
18.3. Cenedlaethol 24
19. Cydymffurfio â'r Polisi hwn 25
20. Atodiad A – Diffiniadau Diogelu 26
21. Atodiad B – Diffiniadau Camdriniaeth ac Esgeulustod..... 26
22. Atodiad C – Arwyddion o Niwed 28
23. Atodiad D- Pan mae plentyn yn datgelu am blentyn arall..... 38
24. Atodiad E – Camau i'w cymryd pan mae angen siarad â phlentyn i ganfod a oes pryder amddiffyn plant 41
24. Atodiad F- Camau i'w cymryd wrth gyfarfod â pherson ifanc i ganfod a yw'r protocol Ymddygiadau Niweidiol Rhywiol (SHB) yn gymwys neu a yw perthynas rywiol yn creu perygl o niwed iddyn nhw..... 42
25. Atodiad G – Cofnod Dyddiol Contractwyr/Ymwelwyr..... 43
26. Atodiad H – Rhannu Gwybodaeth..... 44
27. Atodiad I- Proses ar gyfer holl Staff y Gwasanaeth Addysg Canolog..... 45
28. Atodiad J – Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Addysg 46
29. Atodiad K – Beth yw Diogelu - Cynradd 52
30. Atodiad L – Beth yw Diogelu – Uwchradd..... 53

1. Disgrifiad o'r Ysgol

Mae Ysgol Llan-y-pwll wedi ei leoli yn Borras, sydd ar gyrion tref Wrecsam. Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Llan-y-pwll a bydd yr ysgol yn agor ei drysau i ddisgyblion y dosbarth Meithrin a Derbyn yn y lle cyntaf ym mis Medi, 2022.

Bydd gwybodaeth am boblogaeth y Plant gan gynnwys Anghenion Ychwanegol/Arbennig, demograffeg disgyblion EAL, Plant sy'n derbyn Gofal, Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn cael ei ychwanegu yma unwaith mae'r wybodaeth ar gael.

2. Disgrifiad o Ffurfio'r Polisi a'r Broses Ymgynghori

Mae'r polisi hwn yn ystyried y dogfennau allweddol canlynol:

- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 158/2015 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. A dogfennau eraill a restrir yn y Cylchlythyr: 158/2015
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg – Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill. Daw yn lle Adran 10 o'r ddogfen isod.
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2013 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo i Staff sydd wedi'u lleoli mewn ysgol
- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygiad) 2014
- Canllawiau Llywodraeth Cymru – Model o Bolisi Diogelu
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Taflen Un pwynt mynediad (SPOA) CBS Wrecsam 2018.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Deddf Plant 1989 a 2004

Mae'r Awdurdod Lleol wedi paratoi'r polisi hwn ar sail model a ddarparwyd gan Gyngor Sir Dinbych. Lluniwyd y model gwreiddiol yn dilyn ymgynghoriad ag ystod eang o bartneriaid ac ysgolion. Cyflwynwyd y model hefyd i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol ac fe'i derbyniwyd fel model cynhwysfawr o arfer da.

Mae Adran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi paratoi'r ddogfen hon a ddiweddarwyd fel model o arfer da sy'n adlewyrchu'r systemau a'r prosesau sy'n weithredol yn Ardal yr Awdurdod Lleol.

Gall y Polisi gael ei fabwysiadu gan ysgolion unigol a dylai gael ei adolygu o bryd i'w gilydd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu. Gellir cofnodi'r adolygiadau hyn fel rhan o'r polisi ar y clawr ac isod.

Cyflwynodd Mrs Rhiannon James (Swyddog Amddiffyn Plant yr ysgol) y polisi ysgol hwn a adolygwyd ac a ddiwygiwyd ar Mai 26ain 2022 pryd y cafodd ei gymeradwyo a'i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod.

3. Cyflwyniad

Mae diogelu plant o'r pwys mwyaf yn Ysgol Llan-y-pwll. Dylai ysgol fod yn amgylchedd diogel a chynhwysol lle gall plant a phobl ifanc flodeuo a thyfu. Er mwyn cyflawni hyn, rhoddwyd mesurau pellgyrhaeddol yn eu lle, drwy gyfrwng polisïau, fel yr amlinellir yn Adran 17.

Mae gwaith Amddiffyn Plant yn aml yn golygu ansicrwydd ac amwysedd. Fodd bynnag, mae'r broses sy'n sail i'r Broses Amddiffyn Plant yn glir a rhaid glynu wrthi. Mae'n egwyddor sylfaenol fod amddiffyn plant rhag niwed yn gyfrifoldeb i **bob unigolyn sy'n gweithio gyda phlant**. Yn naturiol, mae rhieni a'r cyhoedd yn disgwyl safonau uchel gan weithwyr amddiffyn plant wrth ddiogelu plant ond mae eu cyrraedd yn her i ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Ysgol Llan-y-pwll yn cydnabod pwysigrwydd Amddiffyn a Diogelu plant yn llwyr. Nod y polisi hwn yw lleihau'r risg o niwed i blant yn ein hysgol a sicrhau eu hiechyd a'u lles.

Mae'r termau 'amddiffyn plant' a 'diogelu' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl ac oherwydd hyn mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio'r termau a gellir gweld y rhain yn ***Atodiad A***.

Mae Strwythur Arwain ar Ddiogelu Plant yr Ysgol fel a ganlyn:

Corff Llywodraethu	-	Trosolwg strategol
Pennaeth	-	Arweinyddiaeth gyffredinol
Swyddog Amddiffyn Plant	-	Rheoli a Gweinyddu
Holl Staff	-	Cyfrifoldeb i gofnodi ac adrodd am bryderon amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen yn benodol sy'n dod o dan ddiogelu plant:

- Atal, drwy'r addysgu a'r gefnogaeth fugeiliol a gynigir i ddisgyblion.

- Gweithdrefnau ar gyfer adnabod a reportio achosion, neu achosion a amheuir, o gam-drin. Oherwydd ein cyswllt â phlant o ddydd i ddydd, mae staff ysgol mewn lle da i sylwi ar arwyddion allanol camdriniaeth.

- Cymorth i blant a allai fod wedi dioddef camdriniaeth.

Mae'r polisi hwn yn weithredol i bob Llywodraethwr, Staff a Gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Athrawon, Cynorthwywyr Dysgu, Goruchwylwyr Amser Cinio, Gofalwyr, Ysgrifenyddion, a Staff Swyddfa; gallai pob un o'r rhain fod yn bwynt datgeliad cyntaf i blentyn.

Yn ogystal â bod yn weithredol i'r rhestr o bobl a nodwyd uchod, mae'n gosod rhwymedigaethau personol arnyn nhw.

Mae'n RHAID i bob aelod o'r staff gofnodi ac adrodd am unrhyw broblemau, pryderon neu amheuon amddiffyn plant i'r Swyddog Amddiffyn Plant, cyn gynted ag y'i nodir ac y mae'n ymarferol bosibl, ac i Un Pwynt Mynediad (SPOA) y Gwasanaethau Plant 01978 292039.

Ni ddylid oedi cyn adrodd am unrhyw achos neu bryder os nad yw staff y Gwasanaethau Plant ar gael. Rhaid i Ddirprwy neu berson dynodedig fod ar gael bob amser yn ystod y diwrnod ysgol.

.

4. Rhwymedigaethau Diogelu yr Awdurdod Lleol

Rhaid i Awdurdod Lleol wneud trefniadau i sicrhau fod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant. [Adran 175, Deddf Addysg 2002].

Rhaid i'r Awdurdod Lleol:

- Fonitro cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- Sicrhau fod cyngor, canllawiau a hyfforddiant ar gael fel bo'r angen.

5. Rhwymedigaethau Diogelu yr Ysgol

5.1. Dylai'r Corff Llywodraethu:

- Sicrhau fod gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle i ddelio ag amddiffyn plant a materion diogelu.
- Sicrhau fod yr ysgol yn dilyn polisïau recriwtio diogel.
- Sicrhau fod gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i ddelio â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn aelodau o'r staff.
- Monitro cydymffurfiaeth â'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny.
- Sicrhau fod unrhyw ddiffygion o ran trefniadau amddiffyn plant yn cael eu dwyn i'w sylw a'u hunioni yn ddiymdroi.

- Sicrhau fod y staff i gyd yn derbyn hyfforddiant sy'n cyd-fynd â'u graddfa, yn unol â strategaeth hyfforddi'r Awdurdod Addysg Lleol ***Atodiad K***.

- Sicrhau fod aelod o'r Corff Llywodraethu yn cael ei enwebu i gysylltu â'r Awdurdod Addysg Lleol ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol, pe digwydd fod honiadau o gam-drin yn cael eu gwneud yn erbyn y Pennaeth.

- Adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau yn flynyddol.

5.2. Dylai'r Pennaeth:

- Sicrhau fod yna uwch aelod o'r staff wedi'i ddynodi, sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ac uwch y mae'r rôl yn gofyn amdano. Yr enw ar y rôl fydd y Swyddog Amddiffyn Plant. Enw'r Swyddog Amddiffyn Plant a'r Dirprwy Swyddogion Amddiffyn Plant i gael eu harddangos yn glir o gwmpas yr ysgol.

- Sicrhau fod Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig ar gael bob amser ar safle'r ysgol neu fod trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau fod unrhyw faterion Diogelu/Amddiffyn plant yn cael eu delio â nhw gan Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig sydd wedi'i hyfforddi a'i enwi.

- Sicrhau fod y mater yn cael ei gyfeirio yn brydlon ar y diwrnod y codwyd y pryder o fewn yr ysgol, yn arbennig os oes posibilrwydd fod plentyn yn dychwelyd adref cyn i'r mater gael ei gyfeirio neu ei ddatrys.

- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Amddiffyn Plant a'r Llywodraethwr Amddiffyn Plant dynodedig, a fydd yn goruchwylio polisi ac ymarfer amddiffyn plant yr ysgol.

- Gweithio gyda phob aelod o'r Corff Llywodraethu fel eu bod yn deall ac yn cyflawni'u swyddogaethau i gyd.

- Sylweddoli pwysigrwydd y Swyddog Amddiffyn Plant a threfnu cefnogaeth a hyfforddiant. Mae Swyddog Amddiffyn Plant yr ysgol yn ffigwr allweddol a bydd yn cael hyfforddiant ychwanegol, uwch a hyfforddiant gloywi yn unol â Strategaeth Hyfforddi'r Awdurdod Lleol (***Atodiad K***)

- Dylai'r Pennaeth fod wedi darllen a deall yn llawn Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif: 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill.

- Sicrhau fod pob aelod o'r staff a phob llywodraethwr yn gwybod:

- enw'r Swyddog Amddiffyn Plant a'u rôl,

- enw'r Llywodraethwr Amddiffyn Plant dynodedig,

- fod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros gyfeirio materion amddiffyn plant i'r Swyddog Amddiffyn Plant o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt,

- fod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros fynd â phryderon at Ddirprwy Swyddog Amddiffyn Plant os nad yw'r Swyddog Amddiffyn Plant ar gael,

- fod arnyn nhw ddyletswydd i ddilyn pryderon i fyny a chyfeirio os oes angen.

- Sicrhau fod aelodau o'r staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin a gwybod sut i ymateb i ddisgybl a allai adrodd am gamdriniaeth.

- Sicrhau fod gan rieni ddealltwriaeth o'r cyfrifoldeb a roddwyd ar yr ysgol a'r staff dros amddiffyn plant drwy esbonio ei rhwymedigaethau yn llawlyfr yr ysgol a dogfennau/taflenni tebyg.

- Darparu hyfforddiant gorfodol i'r staff fel eu bod yn gwybod am:

- eu cyfrifoldeb personol,

- y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn yr ysgol,

- yr angen i fod yn wyliadwrus wrth adnabod achosion o gam-drin,

- sut i gefnogi'r plentyn sy'n sôn am gamdriniaeth.

- Mae **Atodiad B** yn rhoi'r diffiniadau o gam-drin/esgeulustod/niwed sylweddol
- Mae **Atodiad C** yn rhoi arwyddion cam-drin/esgeulustod/niwed
- Mae **Atodiad D** yn rhoi cyngor ar gyfrifoldebau staff – beth i wneud?
- Mae **Atodiad E** yn rhoi cyngor ar ba gamau i'w cymryd er mwyn siarad â phlentyn i ganfod a oes pryder amddiffyn plant yno
- Mae **Atodiad F** yn rhoi cyngor ar y camau i'w cymryd wrth gyfarfod â pherson ifanc i ganfod a yw'r protocol SHB yn gymwys neu a yw perthynas rywiol yn creu perygl o niwed iddyn nhw

- Sicrhau fod Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) yn cael ei hysbysu **ac** Un Pwynt Mynediad i Blant lleol y Gwasanaethau Cymdeithasol (SPOA Ffôn 292039) os yw'r ysgol:

-
- yn gorfod gwahardd disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, naill ai am dymor sefydlog neu'n barhaol,

- yn gorfod gwahardd disgybl sy'n 'Blentyn sy'n derbyn Gofal' (LAC), naill ai am dymor sefydlog neu'n barhaol,

- os yw disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb esboniad (yn dilyn ymgynghori â Swyddog Lles yr ysgol)

- Sefydlu a chynnal cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau ac ysgolion perthnasol fel bo'r angen gyda sylw arbennig ar faterion amddiffyn plant. Mynychu neu sicrhau fod yr ysgol yn cael ei chynrychioli mewn adolygiadau cychwynnol a chynadleddau achos, a grwpiau craidd. Sicrhau hefyd fod adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu hanfon i gynadleddau. Dylai ysgolion fynychu'r cyfarfodydd uchod ac ni ddylai hyn gael ei ddirprwyo ar ôl y gynhadledd achos gychwynnol h.y. mae'n rhaid i ysgolion gymryd rhan ym mhob cyfarfod yn y dyfodol am blentyn penodol wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd grŵp craidd.

- Sicrhau fod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw am blant (gan nodi'r dyddiad, digwyddiad, y rhai oedd yn bresennol yn ystod trafodaethau, y camau a gymerwyd, y rhesymau y gwnaed unrhyw benderfyniadau) ***Atodiad D.***

- Sicrhau fod cofnodion i gyd yn cael eu cadw dan glo (gweler Gweithdrefn Cadw Cofnodion).

- Glynu at y drefn a osodwyd yng nghylchlythyr canllaw LlC pan wneir honiad yn erbyn aelod o'r staff Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2013 - Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo i Staff Ysgol a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014 - (Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill) sy'n cysylltu â Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.

- Sicrhau fod y trefniadau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 158/2015 Pennod 5.

- Sicrhau fod cofrestr ddiweddar yn cael ei chadw i gadarnhau'r dyddiad y cafodd y staff i gyd hyfforddiant Amddiffyn Plant/Diogelu. (Dylai'r staff i gyd gael hyfforddiant gloywi o fewn 3 blynedd i'r hyfforddiant gwreiddiol).

5.3. Dylai'r Swyddog Amddiffyn Plant:

- Gael yr hyfforddiant priodol ac uwch y mae'r rôl hon yn ei fynnu, fel yn ôl y strategaeth hyfforddiant ***Atodiad K.***

- Bod ar safle'r ysgol, neu sicrhau fod trefniadau yn eu lle yn ei absenoldeb, i sicrhau fod unrhyw faterion diogelu/amddiffyn plant yn cael eu delio â nhw gan Ddirprwy Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig a hyfforddwyd.

- Cyfeirio'r mater ar y diwrnod y gwnaed y pryder ac yn brydlon er mwyn galluogi'r Gwasanaethau Plant i ymateb cyn diwedd y diwrnod ysgol.

- Gweithio gyda holl aelodau'r Corff Llywodraethu i ddeall a chyflawni cyfrifoldebau'r ysgol.

- Hysbysu'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr am unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â'r drefnu neu am anghenion hyfforddiant pellach.

- Bod yn effro i arwyddion camdriniaeth. Gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddweud am gamdriniaeth ac i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth.

- Wedi cael Hysbysiad, sicrhau fod hysbysiad yn cael ei anfon hefyd at SPOA y Gwasanaethau Cymdeithasol (01978 292039) os yw'r ysgol

- yn gorfod gwahardd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant, naill ai am dymor sefydlog neu'n barhaol,

- yn gorfod gwahardd disgybl sy'n 'Blentyn yn derbyn Gofal', naill ai am dymor sefydlog neu'n barhaol,

- os yw plentyn sydd ar gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb eglurhad.

    - Sefydlu a chynnal cysylltiadau effeithiol gydag astiantaethau ac ysgolion perthnasol fel bo'r angen gyda sylw arbennig ar faterion amddiffyn plant yn cynnwys mynychu adolygiadau cychwynnol a chynadleddau achos, a grwpiau craidd. Sicrhau hefyd fod adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu hanfon i gynadleddau. Dylai ysgolion fynychu'r cyfarfodydd uchod ac ni ddylai hyn gael ei ddirprwyo ar ôl y gynhadledd achos gychwynnol h.y. mae'n rhaid i ysgolion gymryd rhan ym mhob cyfarfod yn y dyfodol am blentyn penodol wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd grŵp craidd.

    - Sicrhau fod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw am blant (gan nodi'r dyddiad, digwyddiad, y rhai oedd yn bresennol yn ystod trafodaethau, y camau a gymerwyd, y rhesymau y gwnaed unrhyw benderfyniadau) ***Atodiad D.***

    - Sicrhau fod cofnodion i gyd yn cael eu caw dan glo (gweler Gweithdrefn Cadw Cofnodion).

- Glynu at y drefn a osodwyd yng nghylchlythyr canllaw LlC pan wneir honiad yn erbyn aelod o'r staff Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2013 - Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo i Staff Ysgol a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014 - (Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill) sy'n cysylltu â Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.

- Sicrhau fod y trefniadau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 158/2015 Pennod 5.

- Dylai'r Swyddog Amddiffyn Plant fod wedi darllen a deall yn llawn Gylchlythyr Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif 009/2014 – Diogelu Plant mewn Addysg – Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill

5.4. Dylai'r staff i gyd:

- Mae'n **RHAID** i'r holl staff gofnodi a riportio unrhyw broblemau, pryderon neu amheuon amddiffyn plant i'r Swyddog Amddiffyn Plant cyn gynted ag y'u nodir a'i bod yn ymarferol bosibl. **Nid mater o ddewis personol yw hwn**. Mae dyletswydd i gofnodi ac adrodd am eich pryderon **heb oedi** wedi i'r honiad/pryder gael ei godi.

- Deall fod amddiffyn plant yn GYFRIFOLDEB AR BAWB. Mae'n rhaid i bob unigolyn sylweddoli ei rôl a'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo budd/lles plant.

- Bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau'r ysgol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a'u dilyn, a gwybod gyda phwy i gysylltu yn yr ysgol i fynegi pryderon am les plentyn.

- Bod yn effro i arwyddion camdriniaeth, esgeulustod ac ecsploetio a all ddigwydd yn y cartref teuluol neu yn y gymuned ehangach.

- Cael mynediad at a chydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd ar gael yn electronig neu gallwch gael yr Ap ar eich ffôn neu yn https://safeguarding.wales/.

- Deall yr egwyddorion a'r ymarfer sydd yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

- Bod wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant i lefel sy'n gymesur â'u rôl a'u cyfrifoldebau.

- Gwybod pryd a sut i gyfeirio unrhyw bryderon am gam-drin plant ac esgeulustod i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

- Gwybod na ddylid byth ofyn i blentyn, rhiant, rhywun sy'n rhoi gofal, perthynas neu aelod o'r cyhoedd sy'n mynegi pryderon am les plentyn wrth weithiwr proffesiynol / asiantaeth wneud hunan-gyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Rhaid i'r gweithiwr proffesiynol a/neu weithiwr asiantaeth wneud y cyfeiriad.

- Gwybod, os oes gan unrhyw unigolyn wybodaeth, pryderon neu amheuon fod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu yn debygol o fod mewn perygl o niwed, mai cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw yw sicrhau fod

pryderon yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswyddau a phwerau i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen

Yn ogystal â'u dyletswydd a'u cyfrifoldeb i gyfeirio, mae ffyrdd eraill y gall pawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd gyfrannu at ddiogelu plant a'r broses amddiffyn plant:

- Trin lles y plentyn fel y peth pwysicaf un.
- Bod yn wyliadwrus ac yn ymwybodol o'r risgiau y gall cam-drinwyr unigol neu gam-drinwyr posibl eu cyflwyno i blant.
- Adnabod pan mae rhiant neu ofalwr mewn perygl o fod heb y gallu i fagu plant. Problemau a all effeithio ar eu gallu i roi gofal effeithiol a phriodol, neu a allai olygu eu bod yn peri risg o niwed i blentyn. Mae'n bosibl y bydd angen cefnogi rhieni o'r fath yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
- Bod yn ymwybodol o effeithiau camdriniaeth ac esgeulustod ar blant.
- Deall y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd a'r cymorth sydd ar gael gan TAC.
- Rhannu gwybodaeth a helpu i'w dadansoddi fel y gellir gwneud asesiad cytbwys o anghenion ac amgylchiadau'r plentyn.
- Cyfrannu fel bo'r angen i ddarparu cymorth neu wasanaeth penodol i'r plentyn neu aelod o'u teulu fel rhan o gynllun y cytunwyd arno a chyfrannu at adolygu cynnydd plentyn.
- Cyfrannu fel bo'r angen ar bob cam o'r broses amddiffyn plant.
- Cyfrannu at adolygu'r deilliannau i'r plentyn yn rheolaidd yn erbyn amcanion cyffredin a rannwyd. Bydd hyn yn cynnwys Cynllunio Bugeiliol yn yr ysgol (PSP).
- Cydweithredu gyda'r rhieni oni bo hyn yn anghyson â'r angen i sicrhau diogelwch a lles y plentyn.
- Ymrwymo i gydweithredu'n llawn â phob asiantaeth arall er budd diogelu plant.

Mae'r asiantaethau partner a restrwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 yn rhannu cyfrifoldeb statudol dros ddiogelu a hyrwyddo lles plant a rhoddir dyletswydd ar bob ymarferydd proffesiynol sy'n gweithio i'r asiantaethau hynny i adrodd am bryderon.

Nid mater o ddewis unigol yw hwn

Mae'n rhaid i amheuaeth o gam-drin plentyn gael ei riportio i SPOA y Gwasanaethau Cymdeithasol (295505) neu i'r Heddlu. Y rhain yw'r asiantaethau, ynghyd â'r NSPCC, sydd â'r pwerau statudol i ymchwilio i amheuon o gam-drin.

Ni ddylai asiantaethau wneud eu hymholiadau amddiffyn plant yn fewnol eu hunain a rhaid iddynt gyfeirio'u pryderon. Os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod o'r staff, gweler Adran 12 o'r polisi hwn.

6. Atal

O dan Ddeddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 mae ar ysgolion ddyletswydd i adnabod yn gynnar anghenion yr holl blant/pobl ifanc gyda'r diben o atal ac amddiffyn. Dylid trafod pryderon gyda'r Swyddog Lles ar ddyletswydd yn SPOA ar 01978 295505.

Rydym yn sylweddoli fod hunan-barch da, hyder, ffrindiau cefnogol a'r gallu i gyfathrebu ag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu plant. Bydd yr ysgol felly yn:

- sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad a chael rhywun i wrando arnyn nhw
- sicrhau eu bod yn gwybod am yr oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atyn nhw os ydyn nhw'n poeni neu mewn trafferthion
- cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd am ABaCh yn y cwricwlwm sy'n rhoi sgiliau angenrheidiol i'r plant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy i droi am help

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol hefyd o'r gwasanaethau sydd ar gael i'w disgyblion ar ffurf cwnsela drwy'r Info Shop neu gymorth gan wasanaethau pwrpasol fel Gwaith Ieuenctid mewn Addysg a Chymorth Atal Cyfiawnder Ieuenctid.

7. Gweithdrefnau

Mae'n rhaid i ysgolion gydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd wedi cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Gellir gweld copi electronig o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar yr App Store neu ewch i https://safeguarding.wales/.

Byddwn yn ystyried y cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol a amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn arfer canllawiau gan Lywodraeth Cymru:

- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel – ar gael yn: https://gov.wales/keeping-learners-safe.

- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod - ar gael yn: https://gov.wales/female-genital-mutilation-guidance-professionals

- Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff - ar gael yn: https://gov.wales/sharing-information-safeguard-children ac Adran 5 o weithdrefnau Diogelu Cymru.

- Diogelu Plant sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod - ar gael yn: https://gov.wales/safeguarding-children-risk-abuse-or-neglect.

- Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant – ar gael yn: https://gov.wales/sharing-information-safeguard-children.

- Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd: Defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau – ar gael yn: https://gov.wales/safe-and-effective-intervention-guidance-schools-and-local-authorities.

- Ymateb i broblemau hunan-niweidio a meddwl am hunanladdiad mewn pobl ifanc – ar gael yn: https://gov.wales/responding-issues-self-harm-and-thoughts-suicide-young-people.

- Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel: Trwyddedau Perfformio i blant - ar gael yn: https://gov.wales/keeping-young-performers-safe-performance-licences-children.

Mae'n hanfodol fod staff a llywodraethwyr yn ymwybodol o'r Canllawiau Ymarfer unigol yma o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan:

- Diogelu pant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CCE).

- Diogelu plant rhag arferon niweidiol sy'n gysylltiedig â thraddodiad, diwylliant crefydd neu ofergoel

- Diogelu plant a all fod yn cael eu masnachu

- Diogelu plant sy'n cael eu heffeithio gan Gam-drin Domestig.

- Diogelu plant rhag esgeulustod i blant.

- Diogelu plant rhag Camdriniaeth Ar-lein.

- Diogelu plant pan mae pryderon am Ymddygiad Rhywiol Niweidiol.
- Diogelu plant sy'n derbyn addysg yn y cartref.
- Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal.
- Diogelu Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE).
- Siart Llif Cymru Gyfan i ymarferwyr wrth ddelio â Datgeliad o bryder am Briodas dan Orfod.
- Canllawiau diwygiedig y Swyddfa Gartref "Dyletswydd Atal" i Gymru a Lloegr
- Cyflwynwyd Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 i wneud caethwasiaeth, caethwasanaeth a masnachu dynol yn drosedd yn y DU

Diogelu Caethwasiaeth Fodern – Mae ar Ysgolion ddyletswydd i:

Warchod plant (ac oedolion yn eu hardal) a all fod yn profi, neu mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgelustod a mathau eraill o niwed ac;
Atal plant (ac oedolion yn eu hardal) rhag bod mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgelustod a mathau eraill o niwed.

Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr Proffesiynol

Pwrpas cyfarfod strategaeth yw rhannu a thrafod yn fanwl yr holl wybodaeth sydd gan ysgol am natur eich pryderon a rhannu safbwyntiau a phryderon am gymorth gwasanaeth gyda theulu.

Sylwer

Ni ddylai defnyddio cyfarfod strategaeth ddod yn lle gwneud cyfeiriadau priodol i'r gwasanaethau plant.

Pwrpas y broses hon yw trafod achosion lle ceir tystiolaeth y byddai gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn well yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr ysgol.

Gallai'r cyfarfod strategaeth a alwyd gan yr ysgol o bosibl leihau'r amser a'r adnoddau a ddefnyddir i gysylltu ag asiantaethau unigol am gyngor a chymorth a diweddariadau ar ddisgybl, drwy ddarparu cynllun cydlynol y gall yr ysgol, asiantaethau a'r teulu gytuno arno sydd er budd gorau'r plentyn.

8. Cefnogaeth

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae ar ysgolion ddyletswydd llesiant i hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae

ar bartneriaid perthnasol sy'n cynnwys staff ysgol ddyletswydd i adrodd i'r Awdurdod Lleol os oes ganddynt achos rhesymol i amau fod plentyn mewn perygl.

Gall plant sy'n cael eu cam-drin neu sy'n gweld trais ei chael yn anodd datblygu ymdeimlad o hunan-werth a gweld y byd fel lle caredig ac ystyrlon. Gallant deimlo diymadferthedd, cywilydd a rhyw deimlad mai eu bai nhw ydyw a chael eu heffeithio'n ddwfn.

Mae'n bosibl mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, diogel a rhagweladwy ym mywydau plant mewn perygl. Serch hynny, pan maent yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol a herfeiddiol neu gallant fynd i'w cragen.

Dylai'r ysgol geisio cefnogi'r disgybl drwy'r canlynol:

- Cynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant gyda chysylltiad a chefnogaeth gan y gwasanaethau priodol a gomisiynwyd.

- Ethos yr ysgol i hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel a rhoi teimlad i'r disgyblion eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi.

- Dylai polisi ymddygiad yr ysgol anelu at gefnogi disgyblion bregus yn yr ysgol. Dylai'r staff i gyd gytuno ar ddull cyson, sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn ond heb ddifrodi hunan-werth y plentyn.

- Dylai'r ysgol geisio sicrhau fod y disgybl yn gwybod fod rhyw fath o ymddygiad yn annerbyniol, ond ei fod ef/hi yn cael eu gwerthfawrogi a ddim yn cael y bai am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd.

- Bod mewn cysylltiad ag asiantaethau perthnasol eraill. Gallai'r rhain gynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau cefnogi eraill megis CAMHS, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaethau Cefnogi Ymddygiad, y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg, Gwaith Ieuenctid mewn Addysg, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Eiriolaeth (Info Shop).

- Cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â bod yna broblem.

9. Trosglwyddo gwybodaeth Diogelu i ysgol neu Awdurdod Lleol newydd.

Pan mae disgybl sydd ar y gofrestr Amddiffyn Plant yn gadael yr ysgol, mae'n rhaid i'r ysgol drosglwyddo gwybodaeth i'r ysgol newydd yn syth a hysbysu'r Swyddog Diogelu a'r Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhaid i unrhyw ffeil ddiogelu ar blentyn gael ei hanfon **ar wahân** i ffeil ysgol y plentyn i sicrhau cyfrinachedd a dylid nodi'r ffeil ddiogelu at sylw Pennaeth yr ysgol newydd.

Mae'r ddolen i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn amlinellu'r cyfrifoldebau trefniadol o ran rhannu gwybodaeth sensitif. www.waspi.org/

10. Plant ag Anghenion Arbennig / Ychwanegol

Yn ystadegol, plant ag anawsterau neu anableddau dysgu yw'r rhai sydd fwyaf agored i gael eu cam-drin. Dylai staff ysgol sy'n delio â phlant ag amrywiol anableddau, nam synhwyraidd a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiad fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin.

Mae angen i staff ysgol feddu ar lefel uchel o ymwybyddiaeth gyda phlant sydd ag ADY a hybu diwylliant lle gall plant roi gwybod am eu dymuniadau a'u teimladau o safbwynt eu gofal a'u triniaeth.

Dylid gwneud yn siŵr fod plant ag ADY yn gwybod sut i godi pryderon os ydynt yn pryderu neu'n flin am rywbeth a dylent gael mynediad at amryw o oedolion y gallant gyfathrebu â nhw. Os oes anawsterau cyfathrebu gan blant, dylai fod ar gael iddynt bob amser ffordd o gael eu clywed.

Dylai plant ag ADY sy'n cael eu cyfweld fel rhan o unrhyw ymchwiliad diogelu gael mynegi eu barn ynghylch pwy fydd yr oedolyn priodol mewn sefyllfa gyfweliad. Dylid gofyn am gyngor gan Un Pwynt Mynediad y Gwasanaethau Cymdeithasol (SPOA) (295505) mewn cysylltiad ag a yw'n briodol i aelod o'r teulu neu staff yr ysgol fynychu cyfweliad gyda'r plentyn neu'r person ifanc.

11. Staff Ategol

Gall staff sy'n gweithio yn yr ysgol, sydd wedi bod yn gweithio gyda phlentyn a ddioddefodd niwed, neu sy'n debygol o ddioddef niwed, ffeindio'r sefyllfa yn ofidus a/neu yn anodd yn broffesiynol ac yn foesol. Dylid cynorthwyo staff – drwy roi cyfle ac amser iddynt siarad drwy eu pryderon naill ai gyda'u goruchwyliwr a all ystyried cymorth pellach gan Swyddog Amddiffyn Plant yr ysgol, Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) a/neu'r Adran Iechyd Galwedigaethol.

Mae Adran 5 o'r polisi hwn yn rhoi enghreifftiau eraill o'r gefnogaeth y dylai'r ysgol ei darparu.

Cyfrifoldeb yr ysgol fyddai goruchwyliaeth broffesiynol y Swyddog Amddiffyn Plant. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod Lleol helpu i hwyluso cymorth rhwydweithio drwy'r ysgol os gwneir cais am hyn.

12. Gwneud Honiadau yn erbyn Aelodau o'r Staff

Rhaid i'r ysgol ddilyn Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg – Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill.

Rhaid i'r Pennaeth a'r Swyddog Amddiffyn Plant sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol o safbwynt y gweithdrefnau sy'n ofynnol pan wneir honiad yn erbyn ymarferwr proffesiynol ac yn arbennig:

- Canllawiau LlC: Cylchlythyr Rhif: 009/2014 - Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill.
- Canllawiau LlC Cylchlythyr Rhif: 002/2013 – Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol
- FFEITHLEN AD - Rheoli Amddiffyn Plant a Materion AD Sensitif
- Cod Ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC)
- Rhan 5 o Fesurau Diogelu Cymru

Gellir dod o hyd i'r canllawiau uchod ar www.llyw.cymru. Bydd gan y Pennaeth a'r Swyddog Amddiffyn Plant eu copïau unigol eu hunain o Gylchlythyrau: 009/2014 ac 002/2013 a restrir uchod a byddant wedi darllen y deall y canllawiau yn llawn. Gellir cael cyngor ac arweiniad gan y LADO a SPOA hefyd.

Mae'n rhaid i'r holl staff sicrhau fod unrhyw honiad am oedolyn sy'n gweithio gyda phlant yn cael ei riportio yn syth i'r Pennaeth neu'r Swyddog Amddiffyn Plant. Bydd hyn yn cynnwys y staff ysgol i gyd, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr, gweithwyr achlysurol neu gontractwyr a'r staff nad ydynt ar safle'r ysgol ond sy'n dod i gysylltiad â phlant h.y. y rheiny sy'n cludo plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, hebryngwyr croesfannau ysgol ayb.

Dylai honiadau yn erbyn aelodau o'r staff gael eu dwyn i sylw'r Pennaeth yn syth (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth Addysg os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth). I hwyluso pethau yn y ddogfen hon, gelwir y person hwn y 'Rheolwr Achos'.

Gan y Pennaeth (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr yn achos Pennaeth) fel y Rheolwr Achos, y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros unrhyw honiad diogelu.

Yn y lle cyntaf rhaid i'r Rheolwr Achos drafod yr honiad yn syth gyda'r SPOA a Swyddog Diogelu Addysg yr Awdurdod Lleol (LADO) (a fydd hefyd yn helpu'r ysgol i lynu at ganllawiau LlC a restrwyd uchod). Dylid hysbysu Swyddog

Diogelu Addysg yr Awdurdod Lleol am **bob** honiad sy'n dod i sylw'r ysgol ac sy'n ymddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf uchod.

Cyrff Llywodraethu sy'n gyfrifol am ddelio â materion disgyblu staff ym mhob ysgol a gynhelir a dylent gyfeirio at Ganllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif: 002/2013 – Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol. (http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/staffdisciplinary-and-dismissal/?lang=en) a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 009/2014 http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140410safeguarding-children-in-education-en.pdf

13. Recriwtio mwy Diogel

Rhaid i'r ysgol lynu wrth Gylchlythyr LIC: 158/2015 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel/Pennod 5 (Daw'r ddogfen hon yn lle Cylchlythyr LIC: 34/02 Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant). Bydd yn rhaid i bob aelod o'r staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr ddal tystysgrif ddatgelu y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o holl ddyddiadau datgelu DBS y staff ac yn sicrhau eu bod yn eu hadnewyddu'n brydlon.

Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl staff cyflenwi dyddiol, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn rhestru lle mae'r datgeliad DBS ar gael neu bydd yn rhaid gwneud asesiad risg wrth ddisgwyl i'r DBS fod ar gael.

Gan y Pennaeth y mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau fod pob unigolyn sy'n dod ar safle'r ysgol wedi cael asesiad risg priodol mewn amgylchiadau lle nad oes datgeliadau DBS ar gael.

Bydd yn rhaid i'r ysgol lynu hefyd at arferion recriwtio mwy diogel o safbwynt deunyddiau cyhoeddusrwydd, gwefannau recriwtio, hysbysebion, pecynnau gwybodaeth i ymgeiswyr, manylebau'r person, swydd ddisgrifiadau, fframweithiau cymwyseddau, cyfweliadau a hyfforddiant sefydlu.

Rhad i'r ysgol lynu wrth Weithdrefnau Recriwtio'r Awdurdod Lleol a Chanllawiau Recriwtio Mwy Diogel Llywodraeth Cymru.

14. Diogelwch ar Safle'r Ysgol

Mae'r ysgol yn lle diogel i ddisgyblion ddysgu a datblygu sgiliau dysgu a sgiliau cymdeithasol. Mae diogelwch corfforol y disgyblion pan maen nhw ar safle'r ysgol o'r pwys mwyaf. Caiff mynediad i safle'r ysgol ei fonitro'n agos a'i adolygu yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol ar Iechyd a Diogelwch mangreoedd ysgol. Gellir gwneud cais i'r Pennaeth i gael golwg ar Bolisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol.

Mae gofyn i bob ymwelydd â safle'r ysgol lofnodi i mewn ac allan o fangre'r ysgol. Dylent nodi'n glir y cwmni maent yn gweithio iddo a'r rheswm dros yr ymweliad. Gan nad yw contractwr dyddiol yn debygol o fod â datgeliad DBS ar gael i'r ysgol ei weld, bydd dull arall o asesu risg yn cael ei ddefnyddio. Bydd yr ysgol yn gwneud asesiad risg, sy'n rhestru'n amlwg y mesurau rheoli a ddefnyddir gan yr ysgol i ddiogelu'r plant. Gellir defnyddio rhestr o gontractwyr dyddiol fel sydd ynghlwm.
Atodiad G

15. Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gogledd Cymru (NWSCB)

Corff statudol yw Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gogledd Cymru sy'n cydlynu, yn monitro ac yn herio'i asiantaethau partner sy'n diogelu plant yng Ngogledd Cymru. Amcanion y Bwrdd yw GWARCHOD y plant yn ei ardal sy'n profi neu sydd mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed ac ATAL plant rhag profi neu fod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Mae Cyngor Wrecsam yn bartner statudol ar y Bwrdd hwn gyda chynrychiolwyr o'r adrannau Addysg a Gofal Cymdeithasol.

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o waith y Bwrdd Diogelu. Dylid diweddaru pob ysgol wrth iddyn nhw danysgrifio i wefan NWSB (www.northwalessafeguardingboard.wales) a'i fwletinau. Caiff ysgolion eu hannog i fynychu digwyddiadau a hyfforddiant gan y Bwrdd. Maent yn cynnig hyfforddiant rhithiol hefyd.

Mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion gymryd rhan yn y broses Adolygiad Ymarfer Plant. Dylai ysgolion weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Addysg a Phlant mewn amgylchiadau o'r fath er mwyn sicrhau fod ceisiadau am wybodaeth a dogfennau yn cael ymateb prydlon. Mae'n bosibl y bydd angen i'r ysgol fynychu Digwyddiadau Dysgu yn ystod proses adolygu. Bydd staff yr ysgol yn cael cymorth ac arweiniad gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant er mwyn cymryd rhan lawn yn y digwyddiadau hyn.

Mae cynllun strategol yr NWSCB ar gyfer 2020-21 ar gael yn: https://www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2020/03/NWSB-Business-Plan-2020-21.pdf.

16. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y budd mwyaf o'u haddysg waeth beth fo'u tarddiad ethnig, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cred grefyddol neu ddim cred, defnyddio BSL neu ieithoedd eraill, cenedl, cyfrifoldeb dros ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na ellir dangos fod cyfiawnhad iddo.

Er mwyn dod i farn sensitif a chytbwys am anghenion plentyn a gallu rhiant i ymateb i anghenion eu plentyn, mae'n bwysig fod staff ysgol yn sensitif i batrymau teuluol a ffyrdd o fyw gwahanol, ac i batrymau magu plant sy'n amrywio'n fawr ar draws gwahanol grwpiau hiliol, ethnig a diwylliannol.

17. Cyfrinachedd a Rhannu Gwybodaeth

Mae'r ysgol yn cydnabod fod yr holl faterion sy'n gysylltiedig ag amddiffyn a diogelu plant yn gyfrinachol, ond mae angen cydbwysedd rhwng amddiffyn plant a'r hawl i breifatrwydd, fel yr amlinellir isod.

Bydd y Pennaeth a/neu'r Swyddog Amddiffyn Plant yn datgelu unrhyw wybodaeth am ddisgybl i aelodau eraill o'r staff ar sail angen-gwybod yn unig. Mae cyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant.

Bydd y staff yn deall pam na allant addo cadw cyfrinach i blentyn, a allai beryglu diogelwch neu les y plentyn.

Er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gadarn, mae angen deall egwyddorion cyffredinol rhannu gwybodaeth lle gellir adnabod plentyn/person ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Rhaid i ddiogelwch a lles plentyn neu berson ifanc gael yr ystyriaeth flaenaf wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth amdanyn nhw.

Rhaid cael sail gyfreithiol i rannu gwybodaeth a diben cyfreithlon dros wneud hynny. Wrth ddelio â gwybodaeth gyfrinachol, bydd angen i ni fod yn fodlon fod naill ai:

- rhwymedigaeth statudol i ddatgelu
- caniatâd datganedig neu oblygedig gan y bobl dan sylw neu
- fod datgelu gwybodaeth er budd cyhoeddus tra phwysig

Nid yw'r Ddeddf GDPR yn rhwystr i rannu gwybodaeth ond mae'n darparu fframwaith i sicrhau fod gwybodaeth bersonol am bobl fyw yn cael ei rhannu'n briodol.

Hyd nes bod protocolau rhannu gwybodaeth ryngasiantaethol yn cael eu datblygu, dylai'r staff ofyn am gyngor gan y Swyddog Amddiffyn Plant a/neu'r Pennaeth am rannu unrhyw wybodaeth.

Dylai'r Pennaeth a'r Swyddog Amddiffyn Plant fod yn llwyr ymwybodol o'r canllawiau am y Ddeddf Diogelu Data a'r canllawiau o ran rhannu gwybodaeth:

- Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) www.waspi.org/

- Canllaw i Weithio'n Rhyngasiantaethol er mwyn Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant - Mawrth 2013

I gyfeirio at y rhain yn hawdd, mae'r Saith Rheol Euraid i Rannu Gwybodaeth i'w gweld yn ***Atodiad H***.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/417696/Archived-information_sharing_guidance_for_practitioners_and_managers.pdf

SYLWER: cymerwyd y 7 rheol euraid o wefan gov.uk ac maent yn ymdrin â'r wybodaeth sydd yn WASPI Llywodraeth Cymru

18. Polisïau Cysylltiedig (Rhaid i bob polisi gael ei darllen ochr yn ochr â'r polisi hwn)

Un o delerau'r polisi hwn yw darllen y dogfennau hyn a chydymffurfio â nhw

Teler arall o'r polisi hwn yw bod asesiadau risg mewn cysylltiad ag unrhyw weithgareddau neu bobl fel sy'n ofynnol yn y polisïau canlynol yn cael eu cofnodi a'u cadw'n ddiogel

Lle'n briodol, rhowch ddolen i'r wybodaeth berthnasol

18.1. Polisïau'r Ysgol

Noder – Bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn defnyddio teitl llawn polisïau'r ysgol yn yr adran hon.

- Ymddygiad a Gwrth-Fwlio
  https://www.gov.uk/bullying-at-school/the
Ymyriad Corfforol/Trin Cadarnhaol (Statudol)
Caniatâd i Greu delweddau Digidol neu Gyfryngau
  https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/313633/DfE_Departmental_Digital_Strategy_v0_9_8.pdf
- Tynnu Lluniau a Gwneud Fideos

- Cyswllt â Disgyblion
  http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/searching/?lang=en
- Polisi Goruchwylio
  https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/280881/supervision_of_activity_with_children_which_is_regulated_activity_when_unsupervised.pdf
- Iechyd a Diogelwch [gweler yr eicon Iechyd a Diogelwch yn y cyfeiriad isod] http://intranet-ad/sorce/default.aspx
- Cymorth Cyntaf

https://www.gov.uk/government/publications/first-aid-in-schools

- Diogelwch Safle
  https://www.gov.uk/government/publications/security-policy-framework
- Presenoldeb
  https://www.gov.uk/school-attendance-absence/overview
- Sefydlu gwirfoddolwyr
  http://intranetad/sorce/apps/sorce_doc_manager/Actions/view_doc.aspx?docid=6825&revid=8066
  http://intranetad/sorce/apps/sorce_doc_manager/Actions/view_doc.aspx?docid=6272&revid=7321
  http://intranetad/sorce/apps/sorce_doc_manager/Actions/view_doc.aspx?docid=688 7&revid=8139
- Cynllunio'r cwricwlwm
  http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/?lang=en Internet safety
  https://www.gov.uk/government/groups/uk-council-for-child-internetsafety-ukccis
- Cyfle Cyfartal
- Chwythu'r Chwiban
  https://www.gov.uk/whistleblowing

18.2. Awdurdod Lleol

- Trefn Recriwtio a Dewis CBSW (sy'n cynnwys arferion recriwtio mwy diogel), dechreuwyr newydd, contractwyr a gwirfoddolwyr.

- Polisi/Gweithdrefn Presenoldeb Cyffredin

- E. Ddiogelwch/Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Ddiogel

- Polisi Chwythu'r Chwiban

18.3. Cenedlaethol

- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 158/2015 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg – Ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill. Daw yn lle Adran 10 o'r ddogfen isod

- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2013 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol

- Canllaw Llywodraeth Cymru – Model o Bolisi Diogelu

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru

- Rhannu Gwybodaeth a Diogelu Data - Fframwaith WASPI a Phrotocol Rhannu Gwybodaeth Ryngasiantaethol Gogledd Cymru i Asesu Plant mewn Angen a Phlant mewn Angen Amddiffyn Plant 2014 www.waspi.org/

- Yr Adran Addysg – Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg – Canllawiau Statudol i Ysgolion Ebrill 2014
  https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/ file/417715/Archived-Keeping_children_safe_in_education.pdf

- Dysgu Drama: Canllawiau ar Ddiogelu Plant ac Amddiffyn Plant i Reolwyr ac Athrawon Drama Cylchlythyr 23/2006

- Ymdrinnir â'r ddeddfwriaeth ganlynol yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru: 158/2015
  Adran 175 Deddf Addysg 2002
  Dyletswydd Gofal Cyfraith Gyffredin
  Deddf Plant 1989
  Deddf Plant 2004
  Deddf Cydraddoldeb 2010
  Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
  Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004
  Fframwaith Hawliau Plant
  Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)
  Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2100
  Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

19. Cydymffurfio â'r Polisi hwn

Mae'n rhaid i bob aelod o'r staff ddarllen a deall cynnwys y polisi hwn, yr atodiadau, a'r polisïau cysylltiedig a amlinellir yn y polisi hwn. Yna rhaid i bob aelod o'r staff brintio a tharo eu henw yn y tabl isod.

Rhaid i unrhyw staff newydd wneud yr un fath ar y cyfle cyntaf posibl.

Enw	Swydd	Llofnod	Dyddiad

20. Atodiad A Diffiniadau Diogelu

Diffiniad Diogelu

Mae diogelu yn golygu atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod ac addysgu'r rheiny o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

21. Atodiad B Diffiniadau

Cymerwyd o Weithdrefnau Diogelu Cymru

Diffiniadau o Gam-drin

Mae hyn yn disgrifio cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys cam-drin sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai mewn annedd preifat, sefydliad neu unrhyw le arall)

Esgeulustod

Ystyr esgeulustod yw peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar les y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person).

Cam-drin Corfforol

Ystyr cam-drin corfforol yw brifo plentyn neu berson ifanc yn fwriadol. Mae'n cynnwys: atal yn gorfforol, megis clymu wrth y gwely, cloi mewn ystafell, achosi llosgiadau, slapio, dyrnu, cicio, brathu neu dagu, trywanu neu saethu, gwrthod rhoi bwyd neu sylw meddygol, rhoi cyffuriau, atal rhag cysgu, achosi poen, siglo neu fwrw babanod, ffugio neu achosi salwch (FII).

Cam-drin Emosiynol

Cam-drin emosiynol yw camdriniaeth emosiynol barhaus tuag at blentyn. Fe'i gelwir weithiau yn gamdriniaeth seicolegol a gall niweidio iechyd emosiynol a datblygiad plentyn yn ddifrifol. Gall camdriniaeth emosiynol gynnwys ceisio dychryn neu fychanu plentyn neu ei arwahanu neu anwybyddu. Mae plant a gam-drinnir yn emosiynol yn aml yn dioddef math arall o gamdriniaeth neu esgeulustod ar yr un pryd. Mae cam-drin

emosiynol yn cynnwys: bychanu neu feirniadu'r plentyn yn gyson, bygwth, gweiddi ar blentyn neu ei alw'n enwau gan chwerthin am ei ben, neu ddefnyddio gwatwar i frifo plentyn, beio plentyn, ei wneud yn fwch dihangol, gorfodi plentyn i berfformio gweithgareddau diraddiol, methu ag adnabod unigoliaeth y plentyn, ceisio rheoli ei fywyd, gwthio plentyn yn rhy galed, neu fethu adnabod ei derfynau gan ei wneud yn agored i ddigwyddiadau trallodus neu ffyrdd o ryngweithio sy'n gyfystyr â cham-drin domestig neu gymryd cyffuriau, methu hyrwyddo datblygiad cymdeithasol plentyn, peidio â chaniatáu iddo gael ffrindiau, ei anwybyddu yn gyson, bod yn absennol, cam-fanteisio arno, peidio byth â dweud unrhyw beth caredig iddo na mynegi teimladau cadarnhaol, na'i longyfarch ar ei lwyddiant, byth yn dangos emosiynau wrth ryngweithio â'r plentyn, a elwir hefyd yn esgeulustod emosiynol.

Cam-drin Rhywiol

Mae 2 fath gwahanol o gam-drin plentyn yn rhywiol. Y rhain yw cam-drin drwy gyswllt a cham-drin heb gyswllt. Mae cam-drin drwy gyswllt yn cynnwys: cyffwrdd pan fo camdriniwr yn gwneud cyswllt corfforol â phlentyn gan gynnwys treiddiad. Mae'n cynnwys: cyffwrdd yn rhywiol unrhyw ran o'r corff p'un ai a yw'r plentyn yn gwisgo dillad ai peidio, treisio neu dreiddio drwy roi gwrthrych neu ran o'r corff yng ngheg y plentyn, ei fagina neu ei anws gan orfodi neu annog y plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol, gorfodi plentyn i ddadwisgo, cyffwrdd organau rhywiol rhywun arall neu fastyrbio. Mae cam-drin heb gyswllt yn cynnwys: gweithrediadau heb gyffwrdd megis meithrin perthynas yn amhriodol, camfanteisio, perswadio plant i berfformio gweithrediadau rhywiol dros y rhyngrwyd a fflachio. Mae'n cynnwys annog plentyn i wylio neu wrando ar weithrediadau rhywiol, peidio â chymryd camau priodol i atal plentyn rhag bod yn agored i weithrediadau rhywiol gan eraill, a chwrdd â phlentyn yn dilyn meithrin perthynas amhriodol gyda'r bwriad o'i gam-drin, cam-drin ar-lein gan gynnwys creu, gweld neu ddosbarthu delweddau cam-drin plant, caniatáu i rywun arall wneud, gweld neu ddosbarthu delweddau cam-drin plant, dangos pornograffi i blentyn, camfanteisio ar blentyn yn rhywiol am arian, grym neu statws (camfanteisio ar blant)

Ariannol

Mae hyn yn cynnwys lladrata, twyll, rhoi pwysau ynghylch arian, camddefnyddio arian.

22. Atodiad C Arwyddion Niwed

Arwyddion Niwed

1 Cam-drin Corfforol

Gall cam-drin corfforol olygu taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu fel arall achosi niwed corfforol i blentyn. Gellir achosi cam-drin corfforol hefyd pan mae rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau, neu'n fwriadol, yn achosi, salwch mewn plentyn.

Arwyddion yn y Plentyn

Cleisio - Yn aml mae modd gwahaniaethu rhwng cleisiau damweiniol a rhai a achoswyd i rywun. Dylid ystyried y canlynol fel rhai heb fod yn ddamweiniol oni ddarperir tystiolaeth neu esboniad digonol:

- Cleisio yn y geg neu o'i hamgylch
- Dwy lygad wedi cleisio ar yr un pryd, heb gleisiau ar y talcen (anaml mae hyn yn ddamweiniol, er gall un llygad cleisiog fod yn ddamweiniol neu'n gam-drin)
- Cleisiau parhaus neu luosog ar y pen neu ar lefydd sy'n annhebygol o gael eu hanafu'n ddamweiniol, er enghraifft, y cefn, ceg, boch, clust, stumog, brest, dan y fraich, gwddf, o amgylch yr organau cenhedlu a'r rectwm
- Amrywiad mewn lliw, o bosibl yn dangos anafiadau a achoswyd ar wahanol adegau
- Amlinelliad gwrthrych a ddefnyddiwyd e.e. marciau gwregys, ôl llaw neu frwsh gwallt
- Cleisio llinellog yn unrhyw le, yn enwedig ar y pen-ôl, y cefn neu'r wyneb
- Cleisio neu rwygo o amgylch neu'r tu ôl i'r llabed/i clustiau yn arwydd o anaf drwy dynnu neu droi
- Cleisio o amgylch yr wyneb
- Marciau gafael ar y bôn braich, blaen y fraich neu'r goes
- Gwaedlifau petechae (smotiau gwaed blaen pin o dan y croen, yn gysylltiedig fel arfer â tharo, mygu, tagu neu wasgu

Toresgyrn – Gall toresgyrn achosi poen, chwyddo a cholli lliw dros asgwrn neu gymal. Mae'n annhebygol y byddai plentyn wedi torri asgwrn heb i'r gofalwyr fod yn ymwybodol o boen y plentyn. Os nad yw'r plentyn yn defnyddio aelod, yn boenus wrth symud a/neu os yw'r aelod wedi chwyddo, gall fod asgwrn wedi torri. Mae lle i boeni os:

- Mae'r hanes yn annelwig, ddim yn bodoli neu'n anghyson
- Mae hen doriadau cysylltiedig

- Aed ar ôl sylw meddygol ar ôl cyfnod o oedi ac erbyn hynny mae'r toriad wedi achosi symptomau megis chwydd, poen neu fethu â symud

Dim ond yn dilyn trawma mawr mae asennau'n torri megis mewn damwain ffordd, anaf difrifol yn sgil ysgwyd neu anaf uniongyrchol fel cic.

Mae torri penglog yn anghyffredin mewn codymau cyffredin, h.y. o dair troedfedd neu lai. Fel arfer mae tyst i'r anaf, bydd y plentyn yn crio, ac os oes toriad mae'n debygol y gwelir chwydd ar y penglog yn datblygu dros 2 i 3 awr. Dylid cymryd pob toriad i'r penglog o ddifrif.

Anafiadau Ceg – Mae rhwygiadau i'r frenulum (y meinwe sy'n cysylltu top y wefus â'r deintgig yn aml yn arwydd o orfodi bwyd ar faban neu blentyn ag anabledd. Yn aml bydd cleisiau bys ar y bochau ac o gwmpas y geg. Gall fod crafiadau ar y daflod y genau hefyd ond ni welir hynny'n aml.

Gwenwyno - Fel arfer mae tabledi neu eitem ddomestig gan blant o dan 5 yn ganlyniad i esgeulustod rhiant neu ofalwr, ond gall fod yn hunan-niwed hyd yn oed mewn plant ifanc.

Ffugio neu Gymell Salwch – Gall ymarferwyr bryderu am y posibilrwydd o blentyn yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i'w gofalwr yn ffugio bod ganddynt salwch, neu'n cymell salwch. Dyma rai pethau i achosi pryder:

- Anghysondebu rhwng cyflyrau meddygol a welwyd ac a adroddwyd amdanynt megis amlder ffitiau
- Mynychu gwahanol ysbytai, mewn ardaloedd daearyddol gwahanol
- Datblygu anhwylderau bwydo/bwyta, o ganlyniad i ryngweithiadau bwydo annymunol
- Y plentyn yn datblygu agweddau abnormal at eu hiechyd eu hunain
- Methiant anorganig i ffynnu – nid yw plentyn yn magu pwysau a thyfu ac nid oes achos meddygol gwaelodol
- Oedi mewn datblygiad lleferydd, iaith neu sgiliau modur
- Ddim yn hoffi cyswllt corfforol achos
- Anhwylderau ymlyniad
- Hunan-barch isel

- Perthynas o ansawdd wael neu ddim perthynas â chyfoedion oherwydd bod rhyngweithiadau cymdeithasol yn cael eu cyfyngu

- Presenoldeb gwael yn yr ysgol a thangyflawni

Marciau Brathu - Gall marciau brathu adael argraff glir o'r dannedd os y'u gwelir yn fuan ar ôl i'r anaf gael ei roi. Yna daw'r siâp yn fwy o glais siâp cylch neu siâp hirgrwn neu gilgant. Mae'r rhai sydd dros 3cm mewn diametr yn fwy tebygol o fod wedi cael eu hachosi gan oedolyn neu blentyn hŷn. Dylid ceisio barn feddygol/ddeintyddol, yn ddelfrydol o fewn y 24 awr gyntaf, os oes unrhyw amheuaeth am darddiad y brathiad.

Llosgiadau a Sgaldiad - Gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng llosgiadau a sgaldiad damweiniol a rhai heb fod yn ddamweiniol. Sgaldiadau yw'r anaf llosgi bwriadol mwyaf cyffredin a gofnodir. Gall unrhyw losg gydag amlinelliad clir fod yn amheus, e.e. llosgiadau cylchol gan sigarennau, llosgiadau llinellol gan rodenni metel neu elfennau tân trydan, llosgiadau o'r un dyfnder dros arwynebedd mawr, sgaldiad sydd â llinell sy'n dangos trochiad neu hylif a dywalltwyd. Hen greithiau sy'n dangos llosgiadau/sgaldio blaenorol, na chafodd driniaeth addas nag esboniad digonol. Sgaldio i ben-ôl plentyn, yn enwedig os nad oes llosgi ar y traed, sy'n arwydd o drochi mewn hylif neu fath poeth.
Mae'n werth cofio'r pwyntiau canlynol hefyd:

- Mae oedolyn cyfrifol yn gwirio tymheredd y bath cyn i'r plentyn fynd i mewn.
- Mae plentyn yn annhebygol o eistedd o'i wirfodd mewn bath poeth ac ni all sgaldio'i ben-ôl yn ddamweiniol heb sgaldio'i draed hefyd.
- Bydd plentyn sy'n mynd i mewn i ddŵr rhy boeth o'i ran ei hun yn brwydro i ddod allan a bydd marciau sblasio

Creithiau – Gall nifer fawr o greithiau neu greithiau o wahanol feintiau neu oed, neu ar wahanol rannu o'r corff, neu sydd â siâp anarferol, awgrymu cam-drin.

Cyflwyniad emosiynol/ymddygiadol

- Gwrthod trafod anafiadau
- Cyfaddef i gosb sy'n ymddangos yn ormodol
- Ofn i rywun gysylltu â'r rhieni ac ofn dychwelyd adref
- Tynnu'n ôl o gyswllt corfforol
- Breichiau a choesau'n cael eu gorchuddio mewn tywydd poeth
- Ofn cymorth meddygol
- Ymosodol tuag at eraill
- Yn absennol o'r ysgol yn aml
- Esboniad nad yw'n cyd-fynd ag anaf
- Sawl esboniad gwahanol yn cael eu rhoi am anaf

Arwyddion y Rhiant

- Gall fod ganddynt anafiadau eu hunain sy'n awgrymu cam-drin domestig
- Ddim yn ceisio cymorth meddygol/oedi anesboniadwy cyn ceisio triniaeth
- Anfoddog i roi gwybodaeth neu i sôn am anafiadau blaenorol
- Absennol heb reswm da pan aiff eu plentyn i gael triniaeth
- Dim diddordeb neu ddim yn cael eu cyffroi gan ddamwain neu anaf
- Ymosodol tuag at y plentyn neu eraill
- Ymdrechion anawdurdodedig i roi meddyginiaeth
- Ceisio tynnu'r plentyn i mewn i'w salwch eu hunain
- Hanes blaenorol o gam-drin mewn plentyndod, hunan-niwed, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol
- Gall y rhiant/gofalwr gymryd gormod o ran mewn profion meddygol, cymryd tymheredd a mesur hylifau corfforol
- Gwelir eu bod yn chware rhan ddwys iawn ym mywydau eu plant, byth yn cymryd seibiant angenrheidiol, na byth yn gadael i unrhyw un arall ofalu am eu plentyn
- Gallant ddangos pryder anarferol am ganlyniadau ymchwiliadau a all ddangos afiechyd corfforol yn y plentyn
- Gall anawsterau rhiantu (neu ni all) ehangach fod yn gysylltiedig â'r math hwn o gamdriniaeth
- Mae gan y rhiant/gofalwr euogfarnau am droseddau treisgar

Arwyddion yn y teulu/amgylchedd

- Ar yr ymylon neu ar wahân i'r gymuned
- Hanes o broblemau iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais domestig
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu lawdriniaethau lluosog gan y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd
- Hanes blaenorol o gam-drin mewn plentyndod, hunan-niwed, honiadau ffug o ymosod corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosbedigaeth gorfforol

2 Cam-drin Emosiynol

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus nes achosi effeithiau niweidiol difrifol a chyson ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall olygu rhoi'r argraff i blant eu bod yn dda i ddim, neu ddim yn cael eu caru, yn annigonol, neu ddim ond yn cael eu gwerthfawrogi mor belled ag y maent yn bodloni anghenion person arall.

Gall gynnwys peidio â rhoi cyfleoedd i'r plentyn fynegi eu barn, eu distewi yn fwriadol neu watwar yr hyn maen nhw'n ei ddweud neu sut maen nhw'n

ei gyfleu. Gall disgwyliadau sy'n anaddas i oed neu ddatblygiad y plentyn gael eu rhoi arno. Gall y rhain gynnwys rhyngweithiadau sydd y tu hwnt i allu datblygu'r plentyn, yn ogystal â gor-warchodaeth a chyfyngu ar archwilio a dysgu, neu rwystro'r plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gall olygu gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Gall olygu bwlio difrifol (yn cynnwys seiberfwlio), achosi i blant deimlo ofn neu mewn perygl yn aml, neu ecsploetio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol ar waith ym mhob math o gamdriniaeth plentyn, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

Arwyddion yn y Plentyn

- Oedi mewn datblygiad
- Ymlyniad abnormal rhwng plentyn a rhiant/gofalwr, e.e. yn orbryderus, methu gwahaniaethu neu ddim ymlyniad
- Ymddygiad ymosodol tuag at eraill
- Plentyn yn cael ei wneud yn fwch dihangol yn y teulu
- Rhewi mewn gwyliadwriaeth, yn enwedig mewn plant cyn-ysgol
- Hunan-barch isel a diffyg hyder
- Tawedog neu gael eu hystyried yn 'unig' - anodd cysylltu ag eraill
- Adweithio gormod i gamgymeriadau
- Ofn sefyllfaoedd newydd
- Ymatebion emosiynol anaddas i sefyllfaoedd poenus
- Ymddygiad niwrotig (e.e. siglo, troelli gwallt, sugno bys)
- Hunan-niwed
- Ofn bod rhywun yn cysylltu â'r rhieni
- Eithafion o fod yn oddefol neu'n ymosodol
- Cam-drin cyffuriau/sylweddau
- Rhedeg i ffwrdd yn gyson
- Lladrata cymhellol
- Ymddangos yn ddifater – agwedd 'ddim yn malio'
- Arwahanrwydd cymdeithasol – ddim yn ymuno i mewn a nemor ddim ffrindiau
- Iselder, di-ddweud
- Problemau ymddygiadol, e.e. ymosodedd, eisiau sylw, gorfywiogrwydd, methu canolbwyntio
- Hunan-barch isel, diffyg hyder, ofnus, gofidus, gorbryderus
- Perthynas wael â chyfoedion, yn cynnwys bod yn dawedog neu ar wahân

Arwyddion yn y Plentyn

- Gall cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl oedolion a chamddefnyddio sylweddau gan oedolion fod yn nodweddion mewn teuluoedd lle mae plant yn agored i gamdriniaeth
- Ymlyniad annaturiol i'r plentyn, e.e. yn orbryderus neu ddim diddordeb yn y plentyn
- Gwneud un plentyn yn y teulu yn fwch dihangol

- Gosod disgwyliadau anaddas ar y plentyn, e.e. rhwystro archwilio neu ddysgu datblygiadol y plentyn, neu ryngweithio arferol yn yr ysgol drwy fod yn or-warchodol.
- Gall anawsterau rhiantu (neu ni all) ehangach fod yn gysylltiedig â'r math hwn o gamdriniaeth.

Arwyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Diffyg cefnogaeth gan deulu/rhwydwaith cymdeithasol.
- Ar yr ymylon neu wedi eu hynysu o'r gymuned.
- Hanes o broblemau iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais domestig
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu lawdriniaethau lluosog gan y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd
- Hanes blaenorol o gam-drin mewn plentyndod, hunan-niwed, anhwylder somateiddio, honiadau ffug o ymosod corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosbedigaeth gorfforol.

3 Esgeulustod

Esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol sylfaenol a/neu seicolegol plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gam-drin sylweddau gan y fam. Wedi i'r plentyn gael ei eni, gall esgeulustod olygu methiant gan riant neu ofalwr i:

- ddarparu bwyd, dillad a chysgod digonol (yn cynnwys taflu allan o'r cartref neu gael eu gadael);
- gwarchod plentyn rhag niwed neu berygl corfforol neu emosiynol;
- sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (yn cynnwys defnyddio darparwyr gofal annigonol); neu
- sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol
- gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu ddiffyg ymateb i, anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

Arwyddion yn y Plentyn – Cyflwyniad Corfforol

- Ddim yn ffynnu, neu, mewn plant hŷn, yn fyr o gorff
- O dan bwysau
- Newynu yn aml
- Cyflwr budr, blêr
- Dim digon o ddillad, dillad mewn cyflwr gwael
- Croen brycheulyd coch/porffor, yn enwedig ar y dwylo a'r traed, a hynny yn y gaeaf oherwydd oerfel
- Aelodau wedi chwyddo gyda briwiau sy'n araf yn gwella, fel arfer yn gysylltiedig ag anaf oerfel

- Chwant bwyd abnormal o wancus
- Gwallt sych, tenau
- Heintiau neu gyflyrau croen parhaus/heb eu trin, e.e. ecsema neu lau pen cyson, sgabies, dolur rhydd
- Cyflyrau iechyd neu feddygol ddim yn cael eu rheoli/eu trin, yn cynnwys iechyd deintyddol gwael
- Damweiniau neu anafiadau mynych

Arwyddion yn y Plentyn - Datblygiad

- Oedi cyffredinol, yn enwedig oedi mewn lleferydd ac iaith
- Sgiliau cymdeithasol annigonol a methu â chymdeithasu

Arwyddion yn y Plentyn – Cyflwyniad Emosiynol/Ymddygiadol

- Anhwylderau ymlyniad
- Diffyg ymateb cymdeithasol normal
  Ddim yn gwybod sut i ymddwyn gydag oedolion
- Anghenus yn emosiynol
- Lladrata cymhellol
- Blinder cyson
- Yn aml yn absennol neu'n hwyr i'r ysgol
- Hunan-barch isel
- Tueddiadau dinistriol
- Yn ffynnu i ffwrdd o amgylchedd y cartref
- Ymddygiad ymosodol a byrbwyll
- Perthynas drwblus â chyfoedion
- Ymddygiad hunan-niweidiol

Arwyddion yn y Rhiant

- Yn edrych yn fudr ac yn flêr
- Dim digon o ddillad
- Sgiliau cymdeithasol annigonol a diffyg gallu i gymdeithasu
- Ymlyniad abnormal i'r plentyn, e.e. gor-bryder
- Hunan-barch isel a diffyg hyder
- Methu â bodloni'r anghenion hanfodol sylfaenol, e.e. digon o fwyd, dillad, gwres, hylendid.
- Methu â bodloni anghenion iechyd a meddygol y plentyn, e.e. iechyd deintyddol gwael, methu â mynychu neu gadw apwyntiadau ag ymwelydd iechyd, Meddyg Teulu neu ysbyty, ddim wedi cofrestru â Meddyg Teulu, diffyg ceisio neu gydymffurfio â thriniaeth feddygol addas, methu â mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau fel rhiant yn ystod beichiogrwydd
- Plentyn yn cael ei adael gyda rhieni sy'n feddw neu'n dreisgar
- Plentyn wedi cael ei adael neu ar ei ben ei hun am gyfnodau hirfaith
- Gall anawsterau rhiantu (neu ni all) ehangach fod yn gysylltiedig â'r math hwn o gam-drin.

Arwyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Hanes o esgeulustod yn y teulu
- Teulu ar yr ymylon neu wedi'u hynysu gan y gymuned
- Mae gan y teulu hanes o broblemau iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais domestig.
- Hanes blaenorol o gam-drin mewn plentyndod, hunan-niwed, anhwylder somateiddio, honiadau ffug o ymosod corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosbedigaeth gorfforol.
- Amgylchedd cartref peryglus yn cynnwys methu â defnyddio offer diogelwch cartref; risg gan anifeiliaid.
- Cyflwr gwael yr amgylchedd cartref e.e. cyfleusterau anlanwaith, diffyg trefniadau cysgu priodol, awyru annigonol (yn cynnwys smygu goddefol) a diffyg gwresogi digonol
- Diffyg cyfleoedd i blentyn chwarae a dysgu

4 Cam-drin Rhywiol

Cam-drin rhywiol yw gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, ddim o reidrwydd â lefel uchel o drais, p'un ai bod y plentyn yn gwybod beth sy'n digwydd ai peidio.

Gall gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, yn cynnwys ymosodiad drwy dreiddiad (er enghraifft treisio neu ryw trwy'r geg) neu heb fod treiddiad fel mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i'r dillad.

Gallant hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, fel cynnwys plant mewn edrych ar, neu gynhyrchu, delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n rhywiol amhriodol, neu baratoi plentyn ar gyfer camdriniaeth (yn cynnwys drwy'r rhyngrwyd).

Nid dim ond dynion sy'n cyflawni camdriniaeth rywiol. Gall menywod gyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol hefyd, fel y gall plant eraill.

Arwyddion yn y Plentyn – Cyflwyniad Corfforol

- Heintiau wrinol, gwaedu neu ddolur yn ardaloedd yr organau cenhedlu neu'r rectwm
- Poen cyson wrth basio dŵr neu ysgarthion
- Gwaed ar y dillad isaf
- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Dolur neu waedu yn y wain
- Beichiogrwydd mewn merch ifanc lle nas datgelir pwy yw'r tad a/neu mae cyfrinachedd neu aneglurder am bwy yw'r tad
- Symptomau corfforol fel anafiadau i ardal yr organau cenhedlu neu'r rectwm, cleisio ar y pen-ôl, yr abdomen a'r cluniau, afiechyd a drosglwyddir yn rhywiol, presenoldeb semen ar y wain, anws, organau cenhedlu allanol neu'r dillad

Arwyddion yn y Plentyn – Cyflwyniad Emosiynol/Ymddygiadol

- Mae'n gwneud datgeliad
- Yn dangos gwybodaeth neu ymddygiad rhywiol sy'n amhriodol i'r oedran/cyfnod datblygu, neu sy'n anarferol o benodol
- Newidiadau anesboniadwy mewn ymddygiad, fel mynd yn ymosodol neu'n dawedog
- Hunan-niwed, e.e. anhwylderau bwyta, hunananafiad ac ymdrechion hunanladdiad
- Hunan-ddelwedd wael, hunan-niwed, hunan-gasineb
- Amharod i ddadwisgo ar gyfer Addysg Gorfforol
- Rhedeg i ffwrdd o'r cartref
- Diffyg sylw neu ganolbwyntio (yn eu byd eu hunain)
- Newidiadau sydyn mewn arferion gwaith ysgol, dod yn driwant

- Tynnu'n ôl, bod ar wahân neu bryderu'n ormodol
- Ymddygiad rhywioledig amhriodol
- Cael eu hecsploetio'n rhywiol neu ddewis anaddas o bartneriaid rhywiol
- Gwlychu eu hunain neu ymddygiadau atchweliadol eraill, e.e. sugno bys
- Tynnu lluniau sy'n rhywiol benodol
- Iselder

Arwyddion yn y Rhieni

- Sylwadau a wneir gan y rhiant/gofalwr am y plentyn
- Diffyg ffiniau rhywiol
- Anawsterau rhiantu ehangach neu fod yn agored i niwed
- Ymddygiad paratoi i bwrpas rhyw (*grooming*)
- Mae'r rhiant yn droseddwr rhyw

Arwyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Teulu ar yr ymylon neu wedi'u hynysu gan y gymuned
- Mae gan y teulu hanes o broblemau iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais domestig.
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, afiechyd neu lawdriniaethau lluosog gan y rhieni/brodyr a chwiorydd i'r teulu
- Hanes blaenorol o gam-drin mewn plentyndod, hunan-niwed, anhwylder somateiddio, honiadau ffug o ymosod corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosbedigaeth gorfforol.
- Mae aelod o'r teulu yn droseddwr rhyw

23. Atodiad D - pan mae plentyn yn datgelu am blentyn arall

Gall plentyn benderfynu datgelu wrth ymarferydd eu bod;

- Wedi dioddef niwed, camdriniaeth neu esgeulustod;
- Yn ymwybodol o blentyn arall a all fod neu sydd yn cael ei gam-drin.

Mae'n bwysig sylweddoli y gall plant 'ddweud':

- Ar lafar
- Drwy chwarae
- Drwy eu hymddygiad.

> Mae'r ffordd y mae'r ymarferydd proffesiynol yn ymateb i'r datgeliadau cychwynnol hyn yn penderfynu a fydd y plentyn yn parhau i ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd neu'n cau i lawr ac yn tynnu unrhyw beth a ddywedwyd yn ôl.
> Gan y gall yr hanesion hyn fod yn hanfodol mewn achosion cyfreithiol, mae'r ffordd y mae ymarferwyr yn eu rheoli yn bwysig.

Mae'n hollbwysig:

- Cadw'r plentyn yn ddiogel rhag perygl, diogelu yw'r peth pwysicaf;
- Gofynnwch y cwestiynau arferol y byddech yn eu gofyn i benderfynu a oes risg ddiogelu fel:
    - Beth sydd wedi digwydd?
    - Pryd digwyddodd o?
    - Ble digwyddodd o?
    - Sut digwyddodd o?
    - Pwy wnaeth o?

- Gwrandewch a sylwch;

- mae'n hollbwysig fod yr ymarferydd yn cofnodi'r hyn a ddywedwyd wrthyn nhw cyn gynted â phosibl, gan y gall hwn fod yr adroddiad cyntaf a'r unig adroddiad a fydd ar gael i'r heddlu;

- Cadwch feddwl agored am yr hyn a welwch ac a glywch.

- Esboniwch wrth y plentyn unrhyw gamau a fydd yn cael eu cymryd mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth;

- **Peidiwch ag** addo cadw'r hyn a ddywedwyd wrthych yn gyfrinach gan fod ar ymarferwyr ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol ac mewn rhai achosion i'r heddlu;

- Cofiwch nad yw adrodd am bryderon yn golygu torri ymddiriedaeth.

Adrodd am bryderon

- Yn syth at eich rheolwr linell a/neu'r person diogelu dynodedig i ofyn am gyngor ac os nad oes neb ar gael, cysylltwch â'r gwasanaethau cymdeithasol.

- Gwnewch yn siŵr fod y pryderon yn cael eu hadrodd yn syth i'r gwasanaethau cymdeithasol lleol:

- Peidiwch ag oedi;

- Peidiwch ag wynebu'r cam-driniwr honedig;

- Peidiwch â phoeni eich bod efallai wedi gwneud camgymeriad. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol bob amser yn cymryd ymarferwyr o ddifrif. Mae'n well trafod y datgeliad gyda rhywun sydd â'r profiad a'r cyfrifoldeb i wneud penderfyniad na pheidio â gweithredu o gwbl.

Cofnodi pryderon

- Cofnodwch, cyn gynted ag y gallwch a ddim hwyrach na 24 awr yn dilyn y datgeliad, yr hyn a ddywedwyd wrthych chi:

- Defnyddiwch union eiriau'r plentyn;

- Disgrifiwch yr amgylchiadau lle digwyddodd y datgeliad; y cefndir ac unrhyw un arall a oedd yn bresennol;

- Byddwch yn ymwybodol y gall fod angen yr adroddiad ar gyfer achos cyfreithiol neu drefn ddisgyblu felly sicrhewch eich bod yn glynu at y ffeithiau;

- Gwnewch nodyn o'r dyddiad, yr amser, y lle a'r bobl a oedd yn bresennol pan wnaed y datgeliad.

ADOLYGU

Sylwadau ffeithiol i gynnwys yr hyn ddywedodd y plentyn air-am-air:

Sylwadau'r Plentyn
Yr union beth a ddywedon nhw, dyfynnwch eu geiriau, peidiwch â rhoi sêr yn lle rhegfeydd neu eiriau anodd. Defnyddiwch yr union eiriau os gallwch eu cofio neu dywedwch eu bod yn eiriau tebyg a'ch bod yn agos at y geiriau

Y Sefyllfa a'r Dasg
Ble oedd y digwyddiad, beth oedd y plentyn i fod yn gwneud, a oedd hon yn dasg/sefyllfa arferol i'r plentyn, oedd hyn yn rhywbeth na fyddai'r plentyn wedi'i brofi o'r blaen. A roddwyd cyfarwyddiadau clir?

Plant eraill
Faint o blant eraill oedd yn bresennol, oedden nhw â rhan yn hyn, beth oedd eu cyfraniad i'r digwyddiad?

Ffactorau Amgylcheddol
A oedd unrhyw beth am amgylchiadau ffisegol y plentyn a effeithiodd ar eu hymddygiad?

Oedolion eraill oedd yn bresennol
A oes angen i chi drawsgyfeirio'ch adroddiad o'r digwyddiad gydag un unrhyw un arall?

Sylwadau Oedolion
Pa eiriau a ddywedwyd wrth y plentyn ar ddiwedd y digwyddiad?

Cofnod Ysgrifenedig
Cofnodwch Amser, Diwrnod a Lle'r digwyddiad, unrhyw ddatgeliad a'r amser y gwnaed y nodiadau. Rhaid i gofnodion fod yn:

Amserol	Cyn gynted â phosibl ac o fewn yr un diwrnod gwaith ac os yw'n bryder neu'n atgyfeiriad amddiffyn plant, cyn gynted â bo hynny'n ymarferol bosibl.
Ffeithiol	Peidiwch â chofnodi'ch barn - dychmygwch eich bod yn gamera fideo sy'n gwylio'r digwyddiad ac ysgrifennwch hanes sy'n ddisgrifiadol ond heb fod yn rhy gymhleth.

Casgliad y Digwyddiad
Sut ddaeth y mater i ben, sut oedd y plentyn yn ymddwyn ar ddiwedd ac ar ôl y digwyddiad? Disgrifiwch yr hyn a wnaethoch chi wedyn e.e. dweud wrth y Swyddog Amddiffyn Plant a rhoi nodiadau am y digwyddiad iddo/iddi. Lle'n briodol, rhowch resymau dros eich penderfyniad.

Sylwer: Ni fydd y pwyntiau uchod yn berthnasol i bob cofnod, ond cofiwch y penawdau a chofnodwch yr wybodaeth sydd ar gael, peidiwch â theimlo fod yn rhaid i chi 'roi tic ym mhob blwch'

24. Atodiad E – Camau i'w cymryd pan mae angen siarad â phlentyn i ganfod a oes pryder amddiffyn plant

Yn amodol ar unrhyw newid barn gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau diwygiedig, cynghorir Swyddogion Amddiffyn Plant i gymryd y camau canlynol pan fo angen siarad â phlentyn i ganfod a oes pryder amddiffyn plant yn bodoli:

1. Dylid cynnig cyfle i'r plentyn gael cefnogaeth gan oedolyn o'u dewis yn y cyfarfod (yr "Oedolyn Cyfrifol" neu'r "Oedolyn"), p'un ai ei bod yn aelod o staff yr ysgol neu'n rhiant neu'n berthynas arall.

2. Fel arfer dylid parchu dymuniad y plentyn os yw'n ymarferol cydymffurfio ag ef (neu oni bai fod yr oedolyn a enwyd â rhan mewn rhyw ffordd yn y pryder yr ymchwilir iddo). Os nad yw'n ymarferol i'r oedolyn hwnnw fod yn bresennol, dylid gwahodd y plentyn i enwi oedolyn arall. Os nad yw'r plentyn yn teimlo y gall ddewis, gallai'r Swyddog Amddiffyn Plant awgrymu rhywun addas.

3. Fel y dywedwyd uchod, dylid dweud wrth yr Oedolyn Cyfrifol am bwrpas y cyfarfod o flaen llaw a dylid rhoi cyfle iddo drafod materion gyda'r disgybl. Dylai'r Oedolyn ei gwneud yn glir ei fod ef/ei bod hi yno i gefnogi a chynghori'r disgybl, ond nid ddylai addo y bydd y trafodaethau rhyngddynt yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Gall fod sefyllfaoedd lle mae'r Oedolyn yn cael gwybod am faterion y mae'n rhaid eu hadrodd wrth y CPS, y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

4. Dylid dweud wrth yr Oedolyn fod croeso iddynt ymyrryd ar ran y disgybl os ydynt yn teimlo fod unrhyw agwedd o'r cyfarfod yn amhriodol.

5. Dylai'r Oedolyn siarad â'r disgybl ar ôl y cyfarfod er mwyn rhoi tawelwch meddwl a chefnogaeth.

-

25. Atodiad F – Camau i'w cymryd wrth gyfarfod â pherson ifanc i ganfod a yw'r protocol Ymddygiad Niweidiol Rhywiol (SBH) yn gymwys neu a yw perthynas rywiol yn creu perygl o niwed iddyn nhw

Yn amodol ar unrhyw newid barn gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau diwygiedig, cynghorir Swyddogion Amddiffyn Plant i gymryd y camau canlynol wrth siarad â pherson ifanc mewn cyd-destun diogelu ac amddiffyn plant:

1. Dylid ystyried a yw'r cyfarfod yn addas o dan y canllawiau priodol a beth yw ei amcanion.

2. Dylid ystyried a yw'r disgybl yn debygol o fod yn fregus a dylid adnabod unrhyw anghenion cefnogaeth arbennig.

3. Dylid ystyried nifer a phwy yw'r oedolion sy'n bresennol yn y cyfarfod, a dylid holi a yw eu presenoldeb yn angenrheidiol

4. Dylid gwneud yn siŵr fod lleoliad yn cyfarfod yn sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd.

5. Cyn dechrau'r cyfarfod, dylid dweud wrth y disgybl ac unrhyw Oedolyn Cyfrifol beth yw pwrpas y cyfarfod a dylid rhoi cyfle i'r disgybl siarad ag Oedolyn Cyfrifol cyn i'r cyfarfod ddechrau. Dylid dweud wrth y disgybl y gall siarad â'r Oedolyn ar unrhyw adeg.

6. Dylid holi'r disgybl am faterion mewn ffordd sensitif a'u gwahodd i roi adroddiad. Ni ddylid eu rhoi o dan bwysau i wneud hynny.

7. Os daw hi'n amlwg ar unrhyw adeg fod angen gwneud atgyfeiriad ffurfiol i'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i'r cyfarfod ddod i ben.

8. Gall fod angen rhoi cyngor i'r disgybl am sut i ymddwyn yn y dyfodol. Dylid rhoi cyngor o'r fath mewn ffordd sensitif ac ymatal rhag barnu.

9. Dylid cloi'r cyfarfod drwy roi sicrwydd i'r disgybl.

Dylai'r Swyddog Amddiffyn Plant wneud cofnod llawn o'r cyfarfod.

-

26.Atodiad G – Cofnod Dyddiol Contractwyr/Ymwelwyr

Log Dyddiol Contractwyr

Dylid rhoi Gwybodaeth Amddiffyn Plant i bob Contractwr a dylid cael enwau Contractwyr.

Dyddiad	Amser i mewn	Amser Gadael	Enw 'r Contractwr	Cwmni	Rheswm am yr ymweliad	Gwybod-aeth AP wedi'i roi	Asesiad Risg	
							Rhif CRB Dilys	
							Gyda rhywun ar y safle	
							Ddim mewn ardaloedd lle mae disgyblion unigol	
							Rhif CRB Dilys:	
							Gyda rhywun ar y safle	
							Ddim mewn ardaloedd lle mae disgyblion unigol	
							Rhif CRB Dilys:	
							Gyda rhywun ar y safle	
							Ddim mewn ardaloedd lle mae disgyblion unigol	

-

27. Atodiad H – Rhannu Gwybodaeth

Rhannu Gwybodaeth

7 Rheol Euraid Rhannu Gwybodaeth

1. Cofiwch nad yw'r Ddeddf GDPR yn rhwystr i rannu gwybodaeth ond mae'n fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion byw yn cael ei rannu'n briodol.

2. Byddwch yn onest ac agored gyda'r unigolyn (a/neu ei deulu lle bo hynny'n briodol) o'r cychwyn ynghylch pam, beth, sut ac â phwy y rhennir gwybodaeth neu y gellir ei rannu, a cheisio eu cytundeb, onid yw'n anniogel neu amhriodol gwneud hynny.

3. Ceisiwch gyngor os oes gennych amheuon, heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn lle bo modd.

4. Lle bo modd, rhannwch wybodaeth gyda chydsyniad a, lle bo modd, parchwch ddymuniadau'r sawl nad ydynt yn cydsynio i gael ei gwybodaeth wedi'i rannu. Gallwch ddal i rannu'r wybodaeth heb gydsyniad os yw budd y cyhoedd yn drech na hynny, yn eich barn chi. Bydd yn rhaid i chi seilio'ch barn ar ffeithiau'r achos.

5. Ystyriwch ddiogelwch a lles: Seiliwch eich penderfyniadau am rannu gwybodaeth ar ystyriaethau diogelwch a lles yr unigolyn ac eraill y gall eu gweithredoedd effeithio arnynt.

6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, digonol, cywir, amserol a diogel: gwnewch yn siŵr fod y wybodaeth a rannwch yn angenrheidiol at y pwrpas yr ydych yn ei rannu, ei fod yn cael ei rannu yn unig â'r unigolion hynny sydd angen ei gael, ei fod yn gywir ac yn gyfoes, yn cael ei rannu yn amserol, ac yn cael ei rannu'n ddiogel.

7. Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – boed i rannu gwybodaeth neu beidio. Os penderfynwch rannu, yna cofnodwch beth rydych wedi'i rannu, gyda phwy ac at ba ddiben.

28. Atodiad I – Proses ar gyfer holl Staff y Gwasanaeth Addysg Canolog

Diogelu – Adrodd am Bryderon Diogelu

Proses i'w dilyn gan holl staff y Gwasanaeth Addysg Canolog.

Adran 1

Pan fod gennych bryderon am 'blentyn' tra'ch bod yn gweithio mewn ysgol yn Wrecsam, mae'n rhaid i'r staff adrodd am eu pryder yn syth wrth Gydlynydd Amddiffyn Plant yr Ysgol am gyngor/gweithredu posibl ac atgyfeirio at Un Pwynt Mynediad y Gwasanaethau Plant - 01978 292039.

Cyfrifoldeb yr unigolyn a gafodd y datgeliad yw gwneud yr atgyfeiriad hwn ac ni ddylai gael ei ddirprwyo i staff arall yn yr ysgol.

Dylai pob aelod o'r staff gael gwybod pwy yw'r Cydlynydd Amddiffyn Plant cyfredol yn yr ysgolion rydych yn eu cefnogi.

Dylai'ch pryderon gael eu hadrodd hefyd i'ch Arweinydd Tîm/Rheolwr lle dylid cofnodi adroddiad a chytuno ar unrhyw gamau pellach – (dylid cofnodi'r ohebiaeth drwy e-bost).

Adran 2

Pan mae staff canolog yn dod yn ymwybodol am bryder am blentyn y tu allan i'r ysgol h.y. ymweliad cartref, gweithio ar y cyd ag asiantaeth, darparwr allanol yn lleisio'r pryderon, hyn, dylid eu riportio'n syth i'r SPOA (292039) a'ch Arweinydd Tîm/Rheolwr yn syth.

Yn absenoldeb eich Arweinydd Tîm/Rheolwr mae'n rhaid i chi riportio'ch pryderon i un o'r swyddogion canlynol –

Arweinydd Cefnogaeth Addysg – John Hodgson 01978 268140/07808787761 Swyddog Cymdeithasol Addysg neu'r Cynrychiolydd Addysg ar SPOA 01978 295505

30. Atodiad J – Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Addysg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Addysg

Strategaeth i ddarparu Hyfforddiant, Cefnogaeth a Chyngor gan y Swyddog Diogelu Addysg i Ysgolion a Gwasanaethau Addysg

Medi 2020 – Gorffennaf 2021

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Y Cyd-destun a Chanllawiau Cenedlaethol

- **Hyfforddiant**
- **Cyngor a Chefnogaeth**

 Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

3. Hyfforddiant

- **Darparu Hyfforddiant i Staff Ysgol**
- **Darparu Hyfforddiant i Staff y Gwasanaeth Addysg**
- **Cyngor a Chefnogaeth**

 Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

4. Cynllunio i'r Dyfodol

- **Hyfforddiant**
- **Cyngor a Chefnogaeth**

 Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

1. Cyflwyniad

Pwrpas y strategaeth hon yw darparu'r fframwaith ar gyfer hyfforddiant diogelu, a gwasanaethau cefnogaeth a chyngor i ysgolion a gwasanaethau addysg yn Wrecsam. Yn sail i hyn mae'r fframwaith cyfreithiol a'r canllawiau statudol, amcanion cynllun busnes y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ac mae'n unol â chylch gorchwyl y Bwrdd hwnnw.

Mae Diogelu Plant ac arferion Recriwtio Mwy Diogel yn datgan fod ar yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i roi cymorth sy'n sicrhau fod ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros ddiogelu plant a monitro eu perfformiad. Sicrhau fod yr hyfforddiant priodol ar gael, polisïau a gweithdrefnau model, rhoi cyngor a chefnogaeth. Hwyluso cysylltiadau a chydweithredu ag asiantaethau eraill, yn statudol ac anstatudol.

Yn Wrecsam darperir y gefnogaeth hon gan un Arweinydd Cefnogaeth Addysg a gyflogir gan Addysg a'i brif ffocws yw cadw plant yn ddiogel drwy gyfrannu at:

- Greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc
- Adnabod lle mae pryderon am les plant a gweithredu i fynd i'r afael â nhw lle'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- Datblygu dealltwriaeth ymwybyddiaeth a gwytnwch plant drwy'r cwricwlwm.

2. Y Cyd-destun a Chanllawiau Cenedlaethol

<u>Hyfforddiant</u>

Mae adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer ysgolion a gynhelir yn datgan

"*Dylai Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a cholegau Addysg Bellach wneud trefniadau i sicrhau fod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant*"

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 158/ 2015: arfer ei bwerau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

"*Mae pawb yn y gwasanaeth addysg yn rhannu amcan i helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy gyfrannu at:*

Darparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc ddysgu mewn lleoliadau addysg, ac

Adnabod plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol a chymryd camau priodol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel, yn y cartref ac mewn lleoliad addysg"

Er mwyn galluogi staff i gyflawni'r gofynion uchod, mae'r canllawiau'n gosod allan y disgwyliadau ar staff ysgol o ran hyfforddiant. Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant mewn ysgolion a llywodraethwyr ysgolion, gael hyfforddiant ar ddiogelu plant a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau o safbwynt amddiffyn plant yn

effeithiol a dylid sicrhau fod hyfforddiant gloywi addas er mwyn diweddaru gwybodaeth a sgiliau'r staff ar gael hefyd. Dylai'r staff hyn gael hyfforddiant gloywi bob blwyddyn.

Mae'n rhaid i'r hyfforddiant diweddaru hwn fynd y tu hwnt i staff yn mynychu hyfforddiant wedi'i drefnu yn y dyfodol i sefyllfa sy'n galluogi addysg ac ysgolion yn Wrecsam i asesu'r staff drwy raglenni hyfforddiant cynhwysfawr. Bydd yr hyfforddiant hwn yn sicrhau fod addysg ac ysgolion yn bodloni eu dyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant (Adran 175) o Ddeddf Addysg 2002.

Mae ysgolion yn cyfrannu drwy'r cwricwlwm hefyd drwy ddatblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwytnwch plant. Mae Estyn yn archwilio yn erbyn y graddau y mae ysgolion yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu. Mewn ysgolion, mae pa mor effeithiol y mae diogelu dysgwyr yn cael ei hyrwyddo, yn radd a all gyfyngu ar effeithiolrwydd cyffredinol. Mae creu amgylchedd dysgu diogel yn golygu cael trefniadau effeithiol yn eu lle i fynd i'r afael ag ystod o faterion.

Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau amddiffyn plant, iechyd a diogelwch disgyblion, bwlio, diogelwch yr ysgol, mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau a sylweddau a sicrhau fod cyfle ar gael i blant drafod eu pryderon gyda staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n deall yr agenda diogelu.

<u>Cyngor a Chefnogaeth</u>

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 158/ 2015 Mae canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (158 /2015) yn datgan y dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau fod y canlynol yn cael eu darparu:

- Polisïau a Gweithdrefnau Model
- Cyngor a chefnogaeth ar ddiogelu
- Hwyluso cysylltiadau a chydweithrediad rhwng asiantaethau
- Cyngor a chymorth i staff dynodedig sy'n delio ag achosion unigol
- Staff a all weithredu drwy ddefnyddio "barnau proffesiynol" i ddatrys unrhyw anawsterau
- Cefnogaeth i'r rheiny sy'n arwain ar "ddiogelu" ac annog a meithrin dealltwriaeth a pherthynas weithio dda rhyngddyn nhw, gweithwyr cymdeithasol y gwasanaethau plant, a staff mewn asiantaethau eraill sydd â rhan mewn diogelu plant er mwyn datblygu gwaith partneriaeth effeithiol

<u>Gwerthuso ac Effeithiolrwydd</u>

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 158/2015 yn datgan:-

“Dylai’r awdurdod lleol fonitro cydymffurfiaeth ysgolion a gynhelir â’r canllaw hwn, yn arbennig o ran sicrhau fod polisïau a gweithdrefnau priodol yn bodoli ac yn cael eu gweithredu, a hyfforddiant staff, yn cynnwys yr uwch unigolyn sydd â chyfrifoldeb dynodedig dros amddiffyn plant. Dylid dod ag unrhyw ddiffygion i sylw corff llywodraethu’r ysgol a chynghori ar y camau sydd eu hangen i’w hunioni.”

“gweithio i sicrhau fod cyrff sy’n gweithio gyda phlant neu’n dod i gysylltiad â nhw, yn gweithredu arferion recriwtio ac adnoddau dynol sy’n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant”

3. Hyfforddiant

Hyfforddiant Staff Ysgol Gyfan -

Mae’r Arweinydd Cefnogaeth Addysg (LADO) a staff enwebedig Gwaith Cymdeithasol Addysg yn darparu hyfforddiant Amddiffyn Plant a Diogelu i holl Staff Addysg a Llywodraethwyr.

Rhoddir yr hyfforddiant gan staff Gwaith Cymdeithasol cymwysedig ac mae’n seiliedig ar ddull “Hyfforddi’r Hyfforddwyr” a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant. Darperir yr hyfforddiant fel a ganlyn.

Lefel 1. Hyfforddiant Sylfaenol i’r holl staff sy’n dod i gysylltiad â phlant. Yn cynnwys-

- Arwyddion a Symptomau cam-drin posibl.
- Categorïau o gam-drin a’r Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Adrodd a chofnodi achosion.
- Y Broses Gyfeirio i’r Un Pwynt Mynediad (SPOA).
- Atebolrwydd o fewn yr ysgol a’r Swyddogion Amddiffyn Plant enwebedig.
- Enghreifftiau o arfer diweddar.
- Rhan 4.
- Materion Digidol/CEOP/Secstio.
- Plant sy’n Colli Addysg/EHE.
- Atal.
- Masnachu/FGM.

Lefel 2. Cyflwyniad Amlasiantaeth Blynyddol i Swyddogion Amddiffyn Plant ac Uwch Arweinwyr/Llywodraethwyr.

Darperir yr hyfforddiant hwn mewn partneriaeth â’r Gwasanaethau Plant/Heddlu Gogledd Cymru ac Iechyd. Yn cynnwys-

- Archwiliad Meddygol – Cyflwyniad gan Bediatregydd Ymgynghorol.
- Plant SPOA – Cyfeirio ac Ymarfer. Cyflwyniad gan Reolwr SPOA.

- Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant a Rhan 4. Cyflwyniad gan ISRO/Arweinydd Addysg.
- Ymchwiliad Heddlu a chipolwg gweithredol – Cyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru.
- Sesiwn Holi ac Ateb a chyfle i drafod/rhannu arfer cyfredol.

Cyfleoedd Hyfforddi Ychwanegol.

- Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fodiwl E ddysgu sydd ar gael i'r staff i gyd ar ei lwyfan E Ddysgu.

- Gall ysgolion gomisiynu Hyfforddiant Amddiffyn Plant annibynnol os mai dyma benderfyniad y Pennaeth/Llywodraethwyr. Fodd bynnag, os oes unrhyw ysgol yn dewis hyn, dylent roi gwybod i'r Arweinydd Cefnogaeth Addysg pryd mae hyn yn digwydd ynghyd ag enw'r darparwr.

- Mae gofyn i ysgolion hefyd gadw cofnod cynhwysfawr o bwy sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a phryd ar y sail hon.

31. Atodiad – Beth yw Diogelu – Cynradd

32. Atodiad L – Beth yw Diogelu - Uwchradd